

EVANS, JOHN (1723 - 1795), gwneuthurwr mapiau

Enw: John Evans

Dyddiad geni: 1723

Dyddiad marw: 1795

Plentyn: John Evans

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gwneuthurwr mapiau

Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth; Diwydiant a Busnes; Teithio

Awdur: Frederick John North

Ganwyd yn Llwyn-y-groes, Llanymynech, 1723. Cofir amdano oherwydd iddo gyhoeddi dau ysgythriad yn cynnwys darlun o Bistyll Rhaeadr a dau fap o Ogledd Cymru. Cyhoeddwyd ei fap o'r Gogledd (naw dalen) yn 1795 yn ôl agos i fodfedd i'r filltir - y map mwyaf a'r gorau o'r cylch hwn i ymddangos cyn cyhoeddi mapiau modfedd-i'r-filltir yr 'Ordnance Survey'; ysgythrwyd y map gan **Robert Baugh**, Llandysilio, a chyflwynwyd ef i **Syr Watkin Williams Wynn**.

Paratodd Evans argraffiad ar raddfa lai - tua thair milltir i'r fodfedd; ysgythrwyd hwn hefyd gan **Baugh** eithr nis cyhoeddwyd hyd 1797, ddwy flynedd wedi marw'r gwneuthurwr. Yr oedd i'r mapiau hyn, yn eu dydd, deilyngdod anghyffredin oherwydd eu hymddangosiad deniadol a nifer a chywirdeb y manylion a gynhwysid ynddynt.

Ailgyhoeddwyd y mapiau gan ei fab **Dr. John Evans**, a gafodd gydnabyddiaeth gan y Royal Society of Arts.

Awdur

Frederick John North, (1889 - 1968)

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 66

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1878, 39

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 755148209324400460006

Wikidata: Q20733413

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



North, F. J., (1953). EVANS, JOHN (1723 - 1795), gwneuthurwr mapiau. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-JHN-1723>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government